WG35 S.89

YCHYDIG O

# BENNILLION

AR YR ACHLYSUR O FARWOLAETH

## DAFYDD JOHN,

*O Lanbedr-ar-Fro, swydd Forganwg,*

Yr hwn a ymadawodd â'r fuchedd hon Ebrill yr 11eg, 1849, yn 82 oed; gwedi bod yn aelod ac yn ddiacon ffyddlon gyda'r Bedyddwyr yn Nghroesyparc, 57ain o flyneddau.

---

Gwagedd o wagedd, medd yr ysgrythyr,
Yw pob-peth dan yr haul a welir;
Gorthrymder yspryd, rhagofalon,—
'Does dim ond gras a lanw'r galon:
Y mae'r ddaear yn heneiddio
Fel dilledyn wrth ei wisgo;
  Marw sydd nos a dydd!—
Ond daw rhydd oleuni,
I'r rhai sydd wedi eu hadgenhedlu
Trwy ffydd i garu'r Arglwydd Iesu.

Yn ngwyneb amryw or'chwyliaethau,
Mae ryw syndod i'm meddyliau!
Wrth weled rhai o'r pererinion,
Gynt a gerais i 'n fy nghalon,
I dir anghof yn dihangyd,
Heb obaith iddynt mwy ddychwelyd,
  Nes daw'r dydd ca'nt dd'od yn rhydd
O'u holl gudd garcharau,
I ail-uno eu heneidiau,
A chanu'n iach i fro y beddau.

X205 310647

Mae'r brawd Dafydd John, er galar,
Yn awr yn ddistaw yn y ddaear;
Ei ran anfarwol a ddychwelodd
At ei Dduw yr hwn a'i rhoddodd;
Yn hyd pum' deg a saith o flwyddau,
Ar fynydd gras fe'i daliodd angau:
  Er gwaethaf llid y cnawd a'r byd,
Oedd yn ymlid o'i gwmpas,
'Roedd yn blodeuo yn ei broffes,
A chai ei garu 'mhob cymdeithas.

Nid swn heb sylwedd oedd gan Dafydd,
Trwy holl dymor maith ei grefydd,
Ond bu'n adeiladu'n ffyddlon
Ar wir sail yr apostolion;
Er ei fod mewn cnawd yn rodio,
Nid oedd felly yn milwrio,
  Ond trwy ffydd, nos a dydd,
Ar bob tywydd mor gyson,
Ai'n ol traed y cwmwl tystion
Sy'n trigfanu ar fynydd Sion.

Nid dan y cwmwl ca'dd ei gym'ryd,
I drigfanau tragwyddolfyd,
Ond fel Paul mewn eitha' hyder,
Yn ngoleuni Haul Cyfiawnder;
Gwedi ymwregysu 'i lwynau
Yn arfogaeth Duw y duwiau;
  Ofn a braw yn sefyll draw,
A'i ddwylaw yn ymaflyd
Mor gadarn yn yr hen addewid,
Nes myn'd o'r gwae i dir y gwynfyd.

O, cofia William! daw'r diwrnod,
Rhaid myn'd ar ol dy dad i'r beddrod;
Mae yn dy feddiant ran anfarwol
Sydd i wynebu byd tragwyddol.
Ti gefaist lawer o'th gynghori,—
Gochel rhag eu diystyru,
  Rhag ofn y daw yn ol llaw
Ddydd o fraw wrth ail goffa;
Clwyf euogrwydd yn dy ddala,
Heb un meddyg f'allai i'w wella.

Llawer gwaith y clywaist dd'wedyd,
Cofia'th Greawdwr yn dy i'engctyd;
Mae'r tymor hwnw gwedi myned,
Ni chai di mwyach byth ei weled;
Ond mae amynedd fawr Jehofa
A'i drugaredd rad yn para;—
  Galw mae i 'difarhau,
Ac i ufuddhau hefyd
I Dywysog mawr y bywyd,—
I'r rhai sy'n gwrando mae'r addewid.

Och, Croesyparc! ti gollaist biler
Fu'n ddefnyddiol yn ei amser;
Fel milwr ffyddlon, bu'n ymdrechu
Trwy ras, i gynal achos Iesu,
Ond, 'nol terfynedig gyngor,
Oddiwrth ei waith aeth at ei wobr:
  Gwerthfawr yw yn ngolwg Duw,
Farwolaeth ei seintiau:—
Cyn caffo Sion fod mewn eisiau,
Fe alw'r meibion yn lle'r tadau.

Cyn terfynu rhaid i fina'
Fwrw'm hadling i'r drysorfa;
Gan ddymuno cyflawn heddwch
Yn Nghroesyparc, a gwir ddiddanwch;
Fel b'o iddynt braidd a bugail,
Gyd-filwrio yn yr anial;
  Cario'r arch gyda pharch,
Ag anerch eu gilydd,—
A rhodio 'r hyd y llwybr newydd,
Gysegrwyd ar Galfaria fynydd.

Bellach rhaid i fi ddystewi,
Mae'n ngalluoedd wedi pallu;
Yr holl adeilad yn adfeilio,
A'r pren almon yn blodeuo;
Rhai fu gynt yn hwylus falu
Bwyd i'r cylla gwedi colli;
  'R aelodau clau yn llesghau,
Pylu mae'r golygon!—
Gwyn fyd y rhai sy'n para'n ffyddlon
Dan y groes nes cael y goron.

*Caerdydd: Argraffwyd gan W. Owen, Heol Duc.*